Atodiad 2

# Canllaw i Gyfansoddiad Cyngor Sir y Fflint

**Cynhyrchwyd yn unol ag adran 37(1A) Deddf Llywodraeth Leol 2000**

## Cyflwyniad

## Y cyfansoddiad

Mae'r Cyngor yn cynnwys unigolion a chyrff gwahanol, sy'n gweithio gyda'i gilydd i gyflawni swyddogaethau'r Cyngor. Mae cyfansoddiad y Cyngor yn disgrifio'r cyrff a'r bobl wahanol sy'n rhan o'r Cyngor, eu swyddogaethau a'r rheolau gweithdrefn sy'n rheoli sut mae'r cyrff hyn yn cydweithio i ddarparu gwasanaethau.

Y bwriad yw: -

- galluogi'r Cyngor i wneud penderfyniadau yn effeithlon ac yn effeithiol;
- eich cefnogi i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnoch chi;
- helpu Cynghorwyr i gynrychioli eu hetholwyr yn fwy effeithiol; a'ch
- galluogi i ddal y Cyngor i gyfrif.

Un o brif amcanion y cyfansoddiad yw nodi'n glir beth allwch ei ddisgwyl gan y Cyngor, a beth allwch chi ei wneud os na fodlonir eich disgwyliadau.

## Y canllaw hwn

Mae'r canllaw hwn wedi'i ddylunio i'ch helpu i ddeall sut mae'r Cyngor yn gweithio i ddarparu gwasanaethau yn eich ardal. Mae'n rhoi trosolwg o gyfansoddiad y Cyngor ac yn egluro adrannau allweddol o'r cyfansoddiad mewn iaith glir a syml.

Gall hefyd fod o ddefnydd i'r sefydliadau hynny sy'n gweithio gyda'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau yn ardal y Cyngor.

Mae rhan gyntaf y canllaw hwn yn egluro pam bod y cyfansoddiad yn bwysig a sut mae'n cael ei adolygu a'i ddiweddaru.

Mae'n anelu i ateb cwestiynau fel:-


- *Pam bod gan y Cyngor gyfansoddiad?* tud.
- *Sut gallaf gael copi o'r cyfansoddiad?* tud.
- *Pwy sy'n gyfrifol am ddiweddaru'r cyfansoddiad?* tud.


Mae ail ran y canllaw hwn yn egluro sut mae'r Cyngor wedi'i strwythuro. Mae'n disgrifio cyrff democrataidd y Cyngor yn ogystal â sut y gwneir penderfyniadau a gan bwy.

Mae'n egluro swyddogaethau'r Cyngor, ei Gabinet a'i bwyllgorau, a pha gorff o'r Cyngor sy'n gyfrifol am bolisïau a phenderfyniadau penodol. Mae'n anelu i ateb cwestiynau fel:-


- *Beth mae fy Nghynghorydd lleol yn ei wneud?* tud.9
- *Beth mae'r Cyngor yn ei wneud?* tud.10
- *Beth sy'n digwydd yng nghyfarfodydd y Cyngor?* tud.11
- *Sut mae'r Cyngor yn gwneud penderfyniadau?* tud.11
- *Sut gallaf wybod beth oedd y Cyngor wedi'i benderfynu am fater sy'n effeithio arnaf i?* tud.13
- *Beth mae'r Cabinet yn ei wneud?* tud.14
- *Sut mae'r Cabinet yn gwneud penderfyniadau?* tud.16
- *Beth mae pwyllgorau'r Cyngor yn ei wneud?* tud.16
- *Pwy sy'n gyfrifol am lywodraethu, archwilio a rheoli risg?* tud.16
- *Pwy sy'n gyfrifol am gynnal democratiaeth leol?* tud.17
- *Beth mae'r pwyllgor trwyddedu yn ei wneud?* tud.17
- *Beth mae'r pwyllgor cynllunio yn ei wneud?* tud.18
- *Sut mae penderfyniadau yn cael eu craffu?* tud.18
- *Pwy sy'n gyfrifol am gynnal safonau a dal Cynghorwyr i gyfrif am eu hymddygiad?* tud.19


Mae trydedd rhan o'r canllaw hwn yn egluro rolau a chyfrifoldebau aelodau etholedig a swyddogion cyflogedig y Cyngor. Mae'n disgrifio'r gwaith maent yn ei wneud a sut maent yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni swyddogaethau a blaenoriaethau'r Cyngor. Mae hefyd yn egluro'r codau ymddygiad sy'n rheoli ymddygiad cynghorwyr a swyddogion a'r safonau ymddygiad y gallwch eu disgwyl ganddyn nhw. Mae'n anelu i ateb cwestiynau fel:-


- *Beth mae'r Cadeirydd yn ei wneud?* tud.23
- *Beth mae'r Arweinydd yn ei wneud?* tud.24
- *Beth sy'n digwydd os nad yw'r Arweinydd yn gallu ymgymryd â'i ddyletswyddau?* tud.24

- *Mae fy Nghynghorydd yn aelod o'r Cabinet, beth mae hyn yn ei olygu?* tud.25
- *Sut caiff aelodau'r Cabinet eu cefnogi?* tud.25
- *Beth mae'r Prif Weithredwr yn ei wneud?* tud.26
- *Pa gyfrifoldebau sydd gan y Swyddog Monitro?* tud.26
- *Pwy sy'n gyfrifol am sicrhau y cydymffurfir â pholisïau a gweithdrefnau democrataidd y Cyngor?* tud.26
- *Sut ddylai Cynghorwyr ymddwyn?* tud.28
- *Sut ddylai Swyddogion ymddwyn?* tud.32
- *A oes yna ofynion arbennig pan fydd Cynghorwyr neu Swyddogion yn penderfynu ar geisiadau cynllunio?* tud.31
- *Sut gallaf gwyno am ymddygiad Cynghorydd?* tud.33
- *Sut ydw i'n rhoi gwybod ynglŷn â phryderon am ymddygiad Swyddog cyflogedig o'r Cyngor?* tud.32

Mae pedwaredd ran o'r canllaw hwn yn rhoi crynodeb o bolisïau a gweithdrefnau allweddol sy'n rheoli sut mae'r Cyngor yn ymgymryd â swyddogaethau penodol. Mae'n anelu i ateb cwestiynau fel:-

- *Ble gallaf ddod o hyd i brif gynlluniau a strategaethau'r Cyngor?* tud.33
- *Sut y penderfynir ar fframwaith polisi'r Cyngor?* tud.34
- *Sut mae'r Cyngor yn gosod ei gyllideb?* tud.35
- *A ellir gwneud penderfyniadau nad ydynt yn cydymffurfio â'r fframwaith polisi neu'r gyllideb?* tud.35
- *A ellir symud arian o un pennawd cyllideb i un arall unwaith y mabwysiadwyd y gyllideb?* tud.37
- *Pa bolisïau a gweithdrefnau eraill sy'n llywodraethu sut mae'r Cyngor yn rheoli ei gyllideb?* tud.3637
- *A oes unrhyw gyfyngiadau ar sut mae'r Cyngor yn prynu nwyddau a gwasanaethau?* tud.36
- *Sut mae'r Cyngor yn llunio contractau a chytundebau?* tud.37

Mae rhan olaf y canllaw hwn yn egluro sut y gallwch ymgysylltu a chyfrannu at eich Cyngor a democratiaeth leol. Mae'n egluro sut mae eich cynghorwyr yn cael eu hethol, sut y gallwch gysylltu â'ch cynghorydd, codi cwestiynau a siarad mewn cyfarfodydd a sut y gallwch ddefnyddio deisebau i godi materion sy'n bwysig i chi gyda'r Cyngor. Mae'n anelu i ateb cwestiynau fel:-


- *Sut gallaf wybod pryd mae cyfarfodydd y Cyngor a'i bwyllgorau a chyrff yn cael eu cynnal?* tud.39
- *Sut gallaf wybod beth fydd yn cael ei drafod mewn cyfarfod penodol?* tud.39
- *Sut gallaf wybod pryd y penderfynir am fater yr wyf yn bryderus amdano?* tud.38
- *A wyf yn gallu gofyn i bwyllgor neu gorff o'r Cyngor edrych ar fater penodol?* tud.40
- *A wyf yn gallu mynychu cyfarfodydd y Cyngor Llawn?* tud.40
- *A wyf yn gallu mynychu cyfarfodydd eraill?* tud.40
- *A wyf yn gallu siarad mewn cyfarfod?* tud.40
- *A wyf yn gallu gofyn cwestiwn mewn cyfarfod?* tud.40
- *Sut gallaf wybod beth oedd penderfyniad y Cyngor?* tud.41
- *A allaf weld cyfrifon y Cyngor i ddeall sut mae treth y cyngor yn cael ei wario?* tud.41


Gellir arwyddbostio i'r adrannau mwyaf perthnasol o'r cyfansoddiad ac i adnoddau ychwanegol sydd ar gael ar wefan y Cyngor drwy'r canllaw hwn i'ch galluogi i ddarllen mwy ar destun penodol os byddwch yn dymuno.

Mae yna hefyd fynegai manwl ar dudalen olaf y canllaw hwn i ganiatáu i chi gael golwg sydyn ar destunau penodol a materion o ddiddordeb i chi.

Os oes yna unrhyw beth yn y canllaw hwn sy'n aneglur, neu rywbeth ar goll, gadewch i ni wybod fel y gallwn wneud gwelliannau.

Gallwch gysylltu â ni ar: -

Gwasanaethau Democrataidd
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug

Rhif ffôn: 01352 702320.

## Rhan 1 Y cyfansoddiad

Mae'r cyfansoddiad yn rheoli sut mae'r Cyngor, Cynghorwyr a swyddogion y Cyngor yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni swyddogaethau'r Cyngor. Mae'n sicrhau bod pawb yn y Cyngor yn gweithredu'n gyfreithiol, yn deg ac yn briodol a bod swyddogaethau'r Cyngor yn cael eu perfformio'n briodol ac yn effeithiol.

Mae Adran 2.1 y cyfansoddiad yn esbonio pwrpas y cyfansoddiad.

Gallwch gael copi o'r cyfansoddiad o swyddfeydd y Cyngor a'i weld ar wefan y Cyngor. Mae'n rhaid darparu copi o'r cyfansoddiad hefyd i bob Cynghorydd pan fyddant yn cael eu hethol i'r Cyngor.

Gallwch gael mynediad i gyfansoddiad y Cyngor ar wefan y Cyngor.

Mae adran 2.8 o'r cyfansoddiad yn egluro ble, pryd a sut mae'n rhaid cyhoeddi'r cyfansoddiad.

Mae'r Swyddog Monitro yn gyfrifol am gynnal ac adolygu'r cyfansoddiad. Mae'r Swyddog Monitro hefyd yn gyfrifol am benderfynu sut y dylid deall a defnyddio'r cyfansoddiad. Gallwch ddarllen mwy am rôl y Swyddog Monitro yn Rhan 4 o'r canllaw hwn.

Mae'r Cyngor Llawn yn gyfrifol am gytuno ar y cyfansoddiad. Unwaith y cytunir ar y cyfansoddiad, y Cyngor Llawn yn unig sydd yn gallu ei newid. Fel arfer, argymhellir newidiadau i'r cyfansoddiad i'r Cyngor Llawn gan y Swyddog Monitro.

Mewn rhai amgylchiadau, gall y Swyddog Monitro wneud newidiadau i'r cyfansoddiad. Er enghraifft, ble mae yna newid yn y gyfraith sy'n effeithio ar y cyfansoddiad, neu ble mae angen gwneud newid bach i egluro darpariaeth yn y cyfansoddiad sy'n aneglur.

Mae adrannau 2.4 i 2.6 yn y cyfansoddiad yn egluro sut y cytunir ar y cyfansoddiad a sut y gellir ei newid.

Mae'r cyfansoddiad hefyd yn rheoli sut y dylid cynnal cyfarfodydd y Cyngor a'i bwyllgorau. Bydd y sawl sy'n cadeirio cyfarfod yn gyfrifol am sicrhau y dilynir y cyfansoddiad yn ystod y cyfarfod hwnnw.

Mae geiriau a brawddegau allweddol yn cael eu diffinio a'u hegluro yn adran 2.2 o'r cyfansoddiad.

## Rhan 2 Strwythurau democrataidd y Cyngor

Mae'r Cyngor yn cynnwys Cynghorwyr sy'n cael eu hethol bob pum mlynedd i gynrychioli pobl sy'n byw mewn gwahanol rannau o ardal y Cyngor (cyfeirir atynt yn y cyfansoddiad fel 'wardiau etholiadol' ond fe'u hadwaenir hefyd yn aml fel 'wardiau').

Mae Cynghorwyr yn gyfrifol am bawb sy'n byw yn ardal y Cyngor, ond mae ganddynt ddyletswydd arbennig i bobl sy'n byw yn eu ward.

Mae Adran 1.2 o'r cyfansoddiad yn darparu gorolwg o sut mae Cynghorwyr unigol yn gweithio gyda'i gilydd fel y Cyngor.

Mae pob Cynghorydd yn cyfarfod gyda'i gilydd fel y Cyngor Llawn. Mae'r Cyngor Llawn yn gyfrifol am osod cyllideb y Cyngor, blaenoriaethau polisi a fframwaith polisi cyffredinol.

Ar ddechrau bob blwyddyn, bydd y Cyngor Llawn yn ethol un Cynghorydd fel Cadeirydd. Mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am gadeirio cyfarfodydd y Cyngor Llawn a sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gwneud yn briodol ac yn unol â'r rheolau.

Gallwch ddarllen mwy am y rolau hyn yn Rhan 3 o'r canllaw hwn.

Gall cynghorwyr unigol hefyd gael eu penodi i'r Cabinet gan yr Arweinydd. Mae Aelodau o'r Cabinet yn gyfrifol am feysydd polisi penodol, cyfeirir atynt yn gyffredinol fel portffolios. Ble rhoddir cyfrifoldeb am faes gwaith penodol neu swyddogaeth i aelod o'r Cabinet, mae'n cael ei ddisgrifio yn y cyfansoddiad fel dirprwyo i'r unigolyn hwnnw.


Mae'r Cabinet yn cwrdd yn rheolaidd i wneud penderfyniadau ar y cyd ar yr agweddau hynny o waith y Cyngor y mae'r Cabinet yn gyfrifol amdano.

Mae rhai o swyddogaethau'r Cyngor yn cael eu cynnal gan bwyllgorau. Mae pwyllgorau yn grwpiau bach o Gynghorwyr sy'n cwrdd gyda'i gilydd i ymgymryd â swyddogaethau rheoleiddio a chraffu penodol y Cyngor.

Gall y Cyngor llawn gyflogi'r staff (y cyfeirir atynt fel swyddogion) y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol. Gall y Cabinet, y Cyngor Llawn a phwyllgorau ddirprwyo swyddogaethau i swyddogion. Mae gwybodaeth bellach ar ddirprwyo yng nghynllun dirprwyo swyddogion, yn adran 11.6 o'r Cyfansoddiad.

Gallwch ddarllen mwy am y strwythurau hyn yn yr adrannau canlynol o'r Rhan hon o'r canllaw.

## Siart Strwythur



## Cynghorwyr

Mae Cynghorwyr yn cael eu hethol gan bobl sy'n byw mewn ward benodol sy'n eu cynrychioli ar y Cyngor. Fodd bynnag, mae Cynghorwyr hefyd yn atebol i'r gymuned ehangach ac mae'n rhaid iddynt weithredu er budd gorau pawb sy'n byw yn ardal y Cyngor.

Os ydych yn dymuno codi mater gyda'r Cyngor a ddim yn siŵr gyda phwy i gysylltu â nhw, mae'n bosibl y byddwch yn dymuno cysylltu â'ch Cynghorydd i ofyn am gymorth.

Gallwch wybod pwy yw eich Cynghorydd lleol a'u manylion cyswllt ar wefan y Cyngor.

Mae pob aelod yn Gynghorwyr o'r Cyngor Llawn, a gallant hefyd fod yn aelodau o un neu fwy o gyrff aelodau'r Cyngor (fel y Cabinet neu bwyllgor). Ble mae Cynghorwyr yn gweithredu fel aelod o gorff Cyngor penodol, cyfeirir atynt yn y cyfansoddiad fel 'Aelodau'.

Mae hyn yn cael ei egluro yn fwy manwl yn y rhestr o ddiffiniadau yn adran 2.2.2 o'r cyfansoddiad.

Mae gan Gynghorwyr hawliau penodol sydd wedi eu nodi yn y cyfansoddiad, sy'n eu galluogi i godi materion a gwneud sylwadau ar eich rhan.

Er enghraifft, gall Cynghorwyr:-

- weld unrhyw wybodaeth maent ei hangen er mwyn cyflawni eu rôl fel aelod o'r Cyngor;
- fynychu unrhyw gyfarfod o'r Cyngor, ei bwyllgorau neu'r Cabinet;
- siarad mewn unrhyw gyfarfod o unrhyw gorff o'r Cyngor y maent yn aelod ohono;
- gyda chaniatâd y Cadeirydd, siarad mewn unrhyw gyfarfod o unrhyw gorff o'r Cyngor (hyd yn oed os nad ydynt yn aelod o'r corff hwnnw);
- siarad gyda'r Arweinydd, neu aelod o'r Cabinet neu swyddogion y Cyngor am unrhyw agwedd o fusnes y Cyngor; a
- chwyno.

Mae hawliau Cynghorwyr i wybodaeth wedi'i gynnwys yn adran 3.1.2 o'r cyfansoddiad.

Mae hawliau Cynghorwyr i gymryd rhan yng ngweithdrefnau'r Cyngor wedi'i gynnwys yn Rheolau Gweithdrefn y Cyngor yn adran 4.10 o'r cyfansoddiad.

Gall Cynghorwyr hefyd godi cwestiynau mewn cyfarfodydd o'r Cyngor Llawn a phwyllgorau ac is-bwyllgorau'r Cyngor, cyflwyno cynigion i'r Cyngor Llawn a galw penderfyniadau i mewn.

Mae'r rheolau sy'n ymwneud â sut mae'r hawliau hyn yn cael eu hymarfer wedi eu cynnwys yn adrannau 4.10 i 4.11 yn y cyfansoddiad.

Gallwch ddarllen mwy am rôl Cynghorwyr etholedig a'r nodweddion sy'n gwneud Cynghorydd da yn y swydd-ddisgrifiad (yn adran 31.1 o'r cyfansoddiad) a'r manylion am yr unigolyn (yn adran 31.18 o'r cyfansoddiad).

## Cygnor Llawn

Mae Adran 4 o'r cyfansoddiad yn rheoli'r Cyngor Llawn.

### Beth mae'r Cyngor Llawn yn ei wneud?

Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i rai penderfyniadau pwysig gael eu gwneud gan holl Gynghorwyr yn cyfarfod gyda'i gilydd fel Cyngor Llawn. Cyfeirir at y rhain yn y cyfansoddiad fel swyddogaethau'r Cyngor Llawn. Mae'n bosibl y bydd y Cyngor yn penderfynu y dylai swyddogaethau anweithredol eraill gael eu cynnal gan y Cyngor llawn hefyd. Cyfeirir at y rhain yn y cyfansoddiad fel swyddogaethau dewis lleol oherwydd bod gan y Cyngor ddewis ynglŷn â pha unigolyn neu gorff ddylai ymgymryd â nhw.

Mae Adran 13 o'r cyfansoddiad yn egluro'r mathau gwahanol o swyddogaethau a gynhelir gan y Cyngor a pha ran o'r Cyngor sy'n gyfrifol am ymgymryd â nhw.

Mae'r Cyngor Llawn yn gyfrifol am y canlynol ymhlith pethau eraill:-

- cytuno ar y cyfansoddiad ac unrhyw newidiadau i'r cyfansoddiad;
- gosod cyllideb y Cyngor;
- cytuno ar gynlluniau a strategaethau allweddol (cyfeirir ato yn y cyfansoddiad fel 'Fframwaith Polisi Cynllun y Cyngor');
- adolygu ac adrodd ar berfformiad y Cyngor;
- cymeradwyo, adolygu a diwygio cynllun deisebu'r Cyngor;
- cytuno ar gylch gorchwyl pwyllgorau'r Cyngor;
- penodi a diswyddo'r Arweinydd; a
- phenodi neu gadarnhau penodiad y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddogion eraill.

Mae holl swyddogaethau'r Cyngor Llawn wedi eu rhestru yn adran 4.6 o'r cyfansoddiad.

Mae cyfarfodydd y Cyngor Llawn yn cael eu cadeirio gan y Cadeirydd. Maent yn gyfrifol am sicrhau bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn unol â'r cyfansoddiad a bod y penderfyniadau yn cael eu gwneud yn iawn, yn deg ac yn gyfreithiol.

Gallwch ddarllen mwy am rôl y Cadeirydd yn Rhan 3 o'r canllaw hwn.

## Beth sy'n digwydd yng nghyfarfodydd y Cyngor Llawn?

Bydd y Cyngor Llawn yn cyfarfod ar ddechrau bob blwyddyn ariannol i ethol Cynghorwyr i swyddi penodol ar y Cyngor, i benodi Cynghorwyr ar gyrff allanol a sefydlu pwyllgorau a gweithgorau i ymgymryd â busnes y Cyngor yn ystod y flwyddyn. Mae hwn yn cael ei alw'n gyfarfod blynyddol.

Mae amseru'r cyfarfod blynyddol a'r materion a benderfynir arnynt yn y cyfarfod wedi eu disgrifio yn rheol 1 gweithdrefn y cyngor (adran 4.10 o'r cyfansoddiad).

Yn y cyfarfod blynyddol, bydd y Cyngor hefyd yn penderfynu pa mor aml y dylai holl Gynghorwyr gyfarfod gyda'i gilydd fel y Cyngor Llawn. Mae'r cyfarfodydd rheolaidd hyn o'r cyfarfodydd Cyngor Llawn yn cael eu galw'n gyfarfodydd cyffredin.

Mae cyfarfodydd cyffredin yn cael eu cynnal yn unol â rheol 2 gweithdrefn y cyngor (adran 4.10 o'r cyfansoddiad).

Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosibl y bydd y Cyngor Llawn angen cyfarfod cyn y cyfarfod nesaf a drefnwyd i drafod mater sy'n un brys neu'n bwysig. Mae hwn yn cael ei enwi'n gyfarfod arbennig o'r Cyngor.

Mae'r broses ar gyfer galw cyfarfod arbennig a'r materion fyddai'n cael eu trafod yno wedi eu nodi yn rheol 3 gweithdrefn y Cyngor (adran 4.10 o'r cyfansoddiad).

Mae Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn gyfrifol am benderfynu pryd a ble bydd cyfarfodydd y Cyngor Llawn yn cael eu cynnal. Mae'n rhaid iddynt hysbysu'r Cyngor am hyn drwy gyflwyno gwŷs iddynt.

Mae Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod y cyhoedd yn cael gwybod am gyfarfodydd y Cyngor Llawn drwy gyhoeddi hysbysiad ymlaen llaw am bob cyfarfod. Mae'n rhaid i'r hysbysiad gynnwys gwybodaeth fel dyddiad ac amser y cyfarfod, ble bydd yn cael ei gynnal a sut y gallwch gael mynediad i'r cyfarfod o bell yn defnyddio cynadledda fideo.

Gallwch ddarllen mwy am gymryd rhan yng nghyfarfodydd y Cyngor yn rhan 4 o'r canllaw hwn.

Mae rheol 4 a 5 gweithdrefn y Cyngor (adran 4.10 i'r cyfansoddiad) yn rheoli trefniadau cyfarfod a gofynion hysbysu.

## Sut mae'r Cyngor yn gwneud penderfyniadau?

Mae cyfarfodydd y Cyngor Llawn yn cael eu cynnal yn unol â set o reolau y cytunwyd arnynt a luniwyd i sicrhau bod trafodaethau yn cael eu cynnal yn deg ac yn effeithiol a bod pob Cynghorydd yn gallu gofyn cwestiynau a gwneud sylwadau ar ran y cyhoedd.

Mae rheolau trafodaeth wedi eu cynnwys yn adrannau 4.10 a 4.11 o'r cyfansoddiad.

Mae penderfyniadau yn cael eu gwneud gan Gynghorwyr yn bwrw pleidleisiau o blaid neu yn erbyn penderfyniad penodol (cyfeirir ato yn y cyfansoddiad fel cynnig). Mae Cynghorwyr hefyd yn gallu cynnig newidiadau i gynnig penodol, y dylid pleidleisio arno.

Fel arfer, pleidleisir drwy ddangos dwylo, gan ofyn i Gynghorwyr godi llaw i nodi pa un a ydynt yn pleidleisio o blaid neu yn erbyn cynnig penodol, neu pa un a ydynt yn dymuno ymatal (e.e. peidio pleidleisio o blaid nac yn erbyn y cynnig).

Bydd penderfyniadau fel arfer angen i'r mwyafrif sy'n bresennol yn pleidleisio dros gynnig penodol. Mewn geiriau eraill, mae mwy o Gynghorwyr yn gorfod pleidleisio dros gynnig nag yn ei erbyn. Ble mae'n bleidlais fwrw unwaith y bydd holl Gynghorwyr wedi pleidleisio, bydd gan y Cadeirydd ail bleidlais fwrw.

Gall Cynghorwyr ofyn am bleidlais wedi'i chofnodi ar fater penodol. Mewn pleidlais wedi'i chofnodi, bydd pleidlais Cynghorwyr o blaid ac yn erbyn cynnig a'r sawl sy'n ymatal yn cael eu hysgrifennu a'u cofnodi yng nghofnodion y cyfarfod. Gall Cynghorwyr hefyd ofyn i'w pleidlais unigol ar gynnig penodol gael ei chofnodi yn y cofnodion.

Mae trefniadau pleidleisio'r Cyngor wedi eu cynnwys yn rheol 15 gweithdrefn y Cyngor (adran 4.10 o'r cyfansoddiad).

## Ydy pob Cynghorydd angen bod yn bresennol cyn y gellir gwneud unrhyw benderfyniad?

Nid yw pob Cynghorydd angen pleidleisio ar bob penderfyniad. Mewn gwirionedd, mewn rhai amgylchiadau mae'n bosibl na fydd yn briodol i Gynghorydd bleidleisio ar fater penodol (er enghraifft, ble mae ganddynt gysylltiad personol sy'n rhagfarnu â phenderfyniad). Gallwch ddarllen mwy am hyn yn rhan 3 o'r canllaw hwn.

Fodd bynnag, er mwyn i'r Cyngor wneud penderfyniad cyfreithiol, mae'n rhaid i isafswm o Gynghorwyr fod yn bresennol yn y cyfarfod. Cyfeirir at isafswm y Cynghorwyr sy'n rhaid bod yn bresennol mewn cyfarfod yn y cyfansoddiad fel y cworwm i'r cyfarfod hwnnw.

Mae rheol 7 gweithdrefn y Cyngor (adran 4.10 o'r cyfansoddiad) yn nodi'r isafswm o Gynghorwyr sy'n rhaid bod yn bresennol fel bod y Cyngor Llawn yn gallu gwneud penderfyniad.

## A yw cyfarfodydd yn cael eu cofnodi?

Bydd cofnod o bob cyfarfod yn cael ei gadw mewn cofnodion. Bydd y cofnodion yn cynnwys cofnod o'r cynigion a gyflwynwyd i'r cyfarfod, a'r penderfyniadau a wneir. Byddant hefyd yn cofnodi pwy oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

Cytunir ar gofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn erbyn cyfarfod nesaf y Cyngor a chyhoeddir ar wefan y Cyngor yn unol â rheolau gweithdrefn mynediad i wybodaeth y Cyngor.

Os ydych eisiau gwybod beth oedd penderfyniad y Cyngor am fater sy'n effeithio arnoch chi, gallwch ddarllen y cofnodion ar gyfer y cyfarfod ble trafodwyd y mater hwnnw.

Mae'r Cyngor hefyd yn defnyddio technoleg er mwyn gallu cynnal cyfarfodydd o bell (lle nad oes neb yn bresennol ac mae bob cyfranogwr yn cysylltu gan ddefnyddio meddalwedd electronig), mewn amrywiol leoliadau, drwy ddull hybrid (lle mae rhai cyfranogwyr yn mynychu'n bersonol ac eraill yn mynychu o bell).

Mae'r Cyngor yn cadw recordiadau webex/zoom ar gyfer cyfarfodydd o'r fath, a gellir gweld y rhain ar wefan y Cyngor.

Mae gwybodaeth am gofnodion ar reol 16 gweithdrefn y Cyngor (adran 4.10 o'r cyfansoddiad).

Gellir dod o hyd i reolau gweithdrefn y Cyngor ar gyfer cyfarfodydd aml-leoliad, cyfarfodydd o bell, a chyfarfodydd hybrid yn adran 4.11 o'r cyfansoddiad.

Mae'r rheolau gweithdrefn mynediad i wybodaeth ar gael yn adran 14 o'r cyfansoddiad.

Mae Cofnodion (a recordiadau, lle bo hynny'n berthnasol) o gyfarfodydd ar gael ar wefan y Cyngor.

## Y Cabinet

Mae’r Cabinet yn cynnwys yr Arweinydd a Chynghorwyr unigol a benodwyd i’r Cabinet gan yr Arweinydd.

Mae adrannau 5.2 a 5.4 o’r cyfansoddiad yn egluro cyfansoddiad y Cabinet a sut y penodir Cynghorwyr i’r Cabinet.

Gall dau neu fwy o Gynghorwyr ymgymryd â rôl Arweinydd ac unrhyw rôl ar y Cabinet ar sail rhannu swydd.

Mae Adran 5.5 o’r cyfansoddiad yn egluro’r trefniadau rhannu swydd ar gyfer aelodau o’r Cabinet.

### Beth mae’r Cabinet yn ei wneud?

Mae’r Arweinydd yn gyfrifol am ymgymryd â swyddogaethau gweithredol y Cyngor. Fodd bynnag, yn ymarferol nid yw’r Arweinydd yn gallu ymgymryd â phob un o’r swyddogaethau hyn yn bersonol, felly mae’r Arweinydd yn dirprwyo cyfrifoldeb ar gyfer rhai swyddogaethau i’r Cabinet, i aelodau o’r Cabinet, i swyddogion y Cyngor neu i gyrff eraill.

Bob blwyddyn, mae’r Arweinydd yn penderfynu pa swyddogaethau i’w dirprwyo i bwy. Mae hyn yn cael ei alw yn gynllun dirprwyo’r Cyngor.

Mae adrannau 5.8 a 5.9.1 i 5.9.4 o’r cyfansoddiad yn egluro sut mae swyddogaethau yn cael eu dirprwyo gan yr Arweinydd.

Mae cynlluniau dirprwyo’r Cyngor ar gael yn adran 6 o’r cyfansoddiad.

### Cyfarfodydd y Cabinet

Bydd yr Arweinydd yn penderfynu pryd fydd y Cabinet yn cyfarfod ac am faint. Byddant hefyd yn cadeirio cyfarfodydd y Cabinet.

Mae’r cyfansoddiad yn rhagnodi materion penodol y dylid eu hystyried ym mhob cyfarfod o’r Cabinet. Yn ogystal, gall yr Arweinydd, aelodau’r Cabinet a rhai Prif Swyddogion ofyn i eitem gael ei hychwanegu at raglen y cyfarfod.

Mae cyfarfodydd y Cabinet yn cael eu cynnal yn unol â rheolau gweithdrefn a thrafodaeth a nodir yn y cyfansoddiad.

Mae rheolau gweithdrefn a thrafodaeth y Cabinet wedi eu cynnwys yn adrannau 5.7 a 5.9 o’r cyfansoddiad.

Mae Adran 5.10 o'r cyfansoddiad yn rheoli sut mae cyfarfodydd y Cabinet yn cael eu cynnal.

## Sut mae'r Cabinet yn gwneud penderfyniadau?

Mae'n rhaid i'r Cabinet ymgynghori gyda Chynghorwyr unigol a gyda rhai pwyllgorau cyn gwneud penderfyniad ar faterion nad ydynt yn rhai brys.

Mae gofynion yr ymgynghoriad wedi eu hegluro yn adran 14.14 o'r cyfansoddiad.

Mae'n rhaid i'r Cabinet gadw cofnod o bob penderfyniad a wnaed, gan gynnwys pob penderfyniad a wnaed gan aelod unigol o'r Cabinet a phwyllgorau'r Cabinet.

Mae Adran 14.15 o'r cyfansoddiad yn nodi gofynion ar gyfer cofnod o benderfyniadau'r Cabinet.

Gallwch ddarllen cofnodion cyfarfodydd y Cabinet ar wefan y Cyngor.

## Pwyllgorau

## Pam bod gan y Cyngor bwyllgorau a beth maent yn ei wneud?

Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor sefydlu pwyllgorau at ddiben cynnal swyddogaethau cyfreithiol y Cyngor.

Gall y Cyngor hefyd benderfynu sefydlu pwyllgorau a gweithgorau eraill at ddiben cynorthwyo'r Cyngor i gynnal ei fusnes yn effeithiol ac effeithlon.

## Beth mae pwyllgorau rheoleiddio'r Cyngor yn ei wneud?

*Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio*

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynghori'r Cyngor Llawn, y Cabinet a'u pwyllgorau ac aelodau perthnasol ar faterion sy'n ymwneud â llywodraethu da, trosolwg ariannol, rheoli risg a chwynion.

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn monitro effeithlonrwydd rheolau a gweithdrefnau'r Cyngor i sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu'n gyfreithiol, cyfrifol ac yn atebol i'r cyhoedd (cyfeirir ato yn y cyfansoddiad fel systemau llywodraethu a rheolau mewnol y Cyngor). Mae'r pwyllgor hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod penderfyniadau a chyllid y Cyngor yn cael eu harchwilio yn unol â gweithdrefnau y cytunwyd arnynt.

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys cymysgedd o Gynghorwyr ac aelodau lleyg (nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor). Mae Cynghorwyr yn cael eu penodi i'r Pwyllgor yn unol â rheolau cydbwysedd gwleidyddol (sy'n sicrhau bod gwneuthuriad gwleidyddol y pwyllgor yn adlewyrchu gwneuthuriad gwleidyddol y Cyngor).

Mae Adran 9.2 o'r cyfansoddiad yn egluro trefniadau'r Cyngor ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Mae'r cynllun dirprwyo yn adran 13 o'r cyfansoddiad yn egluro swyddogaethau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Gellir dod o hyd i siarter y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn adran 9.2.4 o'r cyfansoddiad.

*Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd*

Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn gyfrifol am benodi Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, adolygu darpariaeth adnoddau i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a chefnogi aelodau anweithredol o'r Cyngor.

Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cynnwys Cynghorwyr, er bod yna gyfyngiad ar y nifer o aelodau Cabinet sy'n gallu eistedd ar y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Mae Cynghorwyr yn cael eu penodi i'r Pwyllgor yn unol â rheolau cydbwysedd gwleidyddol (sy'n sicrhau bod gwneuthuriad gwleidyddol y pwyllgor yn adlewyrchu gwneuthuriad gwleidyddol y Cyngor yn gyffredinol).

Mae Adran 9.6 o'r cyfansoddiad yn egluro trefniadau'r Cyngor ar gyfer y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

Mae'r cynllun dirprwyo yn adran 13 o'r cyfansoddiad yn egluro swyddogaethau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

*Pwyllgor Trwyddedu*

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am benderfynu pa un ai i roi trwydded ar gyfer ystod eang o wahanol fusnesau, gwasanaethau a gweithgareddau yn ei ardal. Mae swyddogaethau trwyddedu'r Cyngor yn cael eu dirprwyo i Bwyllgor Trwyddedu'r Cyngor.

Bydd y Cyngor yn penodi Cynghorwyr unigol ar y Pwyllgor Trwyddedu ac yn cytuno ar gylch gorchwyl ar gyfer a dirprwyo pwerau i'r Pwyllgor Trwyddedu i'w ganiatáu i ryddhau'r swyddogaethau hynny.

Gallwch ddarllen mwy am Bwyllgor Trwyddedu'r Cyngor yn adran 9.4 o'r cyfansoddiad.

Gellir dod o hyd i Ddatganiad Polisi Gamblo'r Cyngor yn adran 9.4 o'r cyfansoddiad.

Gallwch hefyd ddarllen mwy am swyddogaethau trwyddedu'r Cyngor ar wefan y Cyngor.

*Pwyllgor Cynllunio*

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am weithredu'r system gynllunio yn ei ardal. Mae hyn yn cynnwys paratoi cynlluniau datblygu lleol a pholisïau cynllunio lleol (sy'n rheoli datblygiad yn ardal y Cyngor) a rheoli datblygiad (drwy warantu neu wrthod caniatâd ar gyfer datblygiad newydd).

Bydd y Cyngor yn penodi Cynghorwyr unigol ar y Pwyllgor Cynllunio ac yn cytuno ar gylch gorchwyl ar gyfer a dirprwyo pwerau i'r Pwyllgor Cynllunio i'w ganiatáu i ryddhau'r swyddogaethau hynny.

Gallwch ddarllen mwy am Bwyllgor Cynllunio'r Cyngor yn adran 9.3 o'r cyfansoddiad.

Gallwch hefyd ddarllen mwy am swyddogaethau cynllunio'r Cyngor ar wefan y Cyngor.

*Pwyllgor Apeliadau*

Mae Pwyllgorau Apeliadau'r Cyngor yn penderfynu ar apeliadau a gyflwynwyd yn erbyn penderfyniadau penodol gan y Cyngor, megis penderfyniadau i roi caniatâd cynllunio neu wrthod trwydded eiddo. Penodir Pwyllgorau Apeliadau ar sail ad hoc, yn ôl yr angen, o gronfa o Aelodau â chymwysterau priodol (Aelodau mwyaf profiadol y Cyngor fel arfer) a gaiff eu penodi gan y Cyngor.

Gall Pwyllgorau Apeliadau benderfynu ar y weithdrefn i'w dilyn i benderfynu ar apêl, yn amodol ar reolau ac amodau cyffredinol penodol a amlinellir yn y cyfansoddiad.

Gallwch ddarllen mwy am Bwyllgor Apeliadau'r Cyngor yn adran 9.5 o'r cyfansoddiad.

## Beth mae pwyllgorau craffu'r Cyngor yn ei wneud?

*Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu*

Mae'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn gyfrifol am gynnal y Cabinet a chyrff eraill y Cyngor i gyfrif.

Mae gan y Cyngor bum Pwyllgor Trosolwg a Chraffu: -

- Pwyllgor trosolwg a chraffu adnoddau corfforaethol;
- Pwyllgor trosolwg a chraffu addysg, ieuenctid a diwylliant;
- Pwyllgor trosolwg a chraffu gofal cymdeithasol ac iechyd;
- Pwyllgor trosolwg a chraffu'r amgylchedd a'r economi; a
- Phwyllgor trosolwg a chraffu cymunedau a thai.

Amlinellir rôl, cwmpas ac aelodaeth y pwyllgorau hyn yn adran 7.3 o'r cyfansoddiad.

Gall y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu hyn: -

- adolygu a chraffu ar benderfyniadau a wnaed gan y Cabinet a rhannau eraill o'r Cyngor;
- cyflwyno adroddiadau ac argymhellion i'r Cyngor neu i'r Cabinet; a
- gwneud cynigion ynglŷn â newidiadau i bolisïau a gweithdrefnau'r Cyngor.

Mae swyddogaethau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu wedi eu cynnwys yn adrannau 7.2 a 7.4 o'r cyfansoddiad.

Mae'n rhaid i Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu gael eu hysbysu am gyfarfodydd cyrff eraill y Cyngor. Mae ganddynt hefyd hawliau arbennig i weld dogfennau'r Cyngor.

Gall y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hefyd ofyn i aelod o'r Cabinet neu uwch swyddog cyflogedig o'r Cyngor fynychu cyfarfod o'r pwyllgor i egluro penderfyniad a wnaed ganddynt neu eu perfformiad.

Mae hawliau a phwerau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cael eu disgrifio yn adrannau 7.4.1 i 7.4.3 o'r cyfansoddiad.

Mae'r rheolau gweithdrefn sy'n llywodraethu'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu, cynnal cyfarfodydd ac ymgymryd â swyddogaethau wedi eu nodi yn adran 7.5 o'r cyfansoddiad.

_Pwyllgor Safonau_

Mae'r Pwyllgor Safonau yn gyfrifol am hybu ymddygiad o safon uchel gan Gynghorwyr, gan gynnwys drwy gynghori a hyfforddi Cynghorwyr ar god ymddygiad cynghorydd a chynghori'r Cyngor ar newidiadau i'r cod hwnnw.

Mae swyddogaethau Pwyllgor Safonau wedi eu cynnwys yn adrannau 8.7 ac 8.8 o'r cyfansoddiad.

Mae'r Pwyllgor Safonau hefyd yn gyfrifol am ymchwilio toriadau honedig i god ymddygiad cynghorydd a disgyblu aelodau a ganfuwyd sydd wedi methu cydymffurfio â'r cod hwnnw.

Mae'r weithdrefn ar gyfer delio gyda honiadau a wnaed yn erbyn Cynghorwyr wedi'i nodi yn adran 20.1 o'r cyfansoddiad.

Mae'r Pwyllgor Safonau yn cynnwys cymysgedd o Gynghorwyr ac aelodau annibynnol (sy'n methu bod yn aelodau na'n swyddogion cyflogedig o'r Cyngor nac yn perthyn i aelodau na swyddogion cyflogedig o'r Cyngor).

Mae Cynghorwyr yn cael eu penodi i'r Pwyllgor Safonau yn unol â rheolau cydbwysedd gwleidyddol (sy'n sicrhau bod gwneuthuriad gwleidyddol y pwyllgor yn adlewyrchu gwneuthuriad gwleidyddol y Cyngor yn gyffredinol).

Gallwch ddarllen mwy am y Pwyllgor Safonau yn adran 8 o'r cyfansoddiad.

*Pwyllgor Cwynion*

Mae'r Pwyllgor Cwynion yn gyfrifol am wrando ar gwynion a godwyd gan swyddogion y Cyngor. Pan fo'r Pwyllgor Cwynion yn cadarnhau cwyn ac yn penderfynu ei bod yn fater o natur ddifrifol gall gyfeirio'r mater at y Pwyllgor Safonau.

Mae'r Pwyllgor Apeliadau Cwynion yn gwrando ar apeliadau yn erbyn penderfyniadau a wneir gan y Pwyllgor Cwynion.

Gallwch ddarllen mwy am y Pwyllgor Cwynion yn adran 9.12 o'r cyfansoddiad.

Gallwch ddarllen mwy am y Pwyllgor Apeliadau Cwynion yn adran 9.13 o'r cyfansoddiad.

*Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu*

Mae'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu'n gyfrifol am arwain ymchwiliadau ac ystyried camau disgyblu yn erbyn swyddogion y Cyngor.

Gallwch ddarllen mwy am y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu yn adran 9.14 o'r cyfansoddiad.

## Beth yw'r Pwyllgor Newid Hinsawdd?

Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, ynghyd â phethau eraill: -

- yn cynghori'r Cyngor ar sut i gyflawni di-garbon net erbyn mis Rhagfyr 2030;
- yn datblygu Strategaeth a Chynllun Gweithredu Newid Hinsawdd y Cyngor, i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr y Cyngor;
- yn hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o ynni adnewyddadwy;
- yn codi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd, busnesau a chyflenwyr y Cyngor am leihau eu hallyriadau carbon; ac
- yn cefnogi a hyrwyddo strategaeth Llywodraeth Cymru i greu economi gylchol gynaliadwy yn Sir y Fflint.

Mae gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd 12 aelod, a phenodir yr aelodau hynny a chadeirydd y pwyllgor gan y Cyngor Llawn.

Gallwch ddarllen mwy am y Pwyllgor Newid Hinsawdd yn adran 9.15 o'r cyfansoddiad.

Gallwch ddod o hyd i Strategaeth Newid Hinsawdd y Cyngor 2022-2030 ar wefan y Cyngor.

## Beth yw cydbwyllgorau?

Gall y Cyngor ymgymryd â rhai o'i swyddogaethau ar y cyd gydag un neu fwy o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru a chyrff cyhoeddus eraill. Gall y Cyngor benderfynu gwneud hyn ble, er enghraifft, mae'r Cyngor yn ystyried y gallai hybu lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl sy'n byw yn ei ardal yn well drwy gydlynu ei weithgareddau gydag awdurdodau lleol, cyrff neu bobl eraill.

Mae'r Cyngor yn gallu sefydlu cydbwyllgor gydag awdurdodau lleol, cyrff neu bobl eraill a dirprwyo penderfyniadau a swyddogaethau i'r cydbwyllgor hwnnw. Drwy ganiatáu i benderfyniadau gael eu gwneud gan gydbwyllgor, mae'r Cyngor yn gallu sicrhau bod penderfyniadau yn gallu cael eu cydlynu rhwng pob awdurdod a chyrff a gynrychiolir ar y pwyllgor.

Gall y Cabinet hefyd sefydlu cyd-drefniadau gydag un neu fwy o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru at ddiben ymarfer swyddogaethau gweithredol ar y cyd gyda'r awdurdodau hynny.

Mae Adran 10.3 o'r cyfansoddiad yn rheoli'r amgylchiadau ble gall y Cyngor neu'r Cabinet ymrwymo i gyd-drefniadau gydag awdurdodau a chyrff eraill.

Mae'r Cyngor a'r Cabinet hefyd yn gallu dirprwyo neu drefnu swyddogaethau penodol drwy gontract i awdurdod lleol neu gorff neu sefydliad arall.

Mae Adrannau 10.5 i 10.6 o'r cyfansoddiad yn egluro trefniadau dirprwyo a chontractio'r Cyngor.

## Cydbwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

Mae Cydbwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn gydbwyllgor.

Fodd bynnag, yn wahanol i gydbwyllgorau eraill (a gaiff eu creu gan Gynghorau'n penderfynu gweithio gyda'i gilydd), crëwyd Cydbwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gan Weinidogion Cymru.

Mae Cydbwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru'n gyfrifol am y swyddogaethau canlynol: -

- darparu Gweledigaeth Twf, a'r Fargen Dwf;
- cludiant;
- sgiliau a chyflogaeth; a chynllunio defnydd tir;

- datblygu economaidd; a
- cynllunio defnydd tir.

Mae'n rhaid i'r Cyngor gydweithio gydag aelodau eraill o Gydbwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru pan mae'n ymgymryd â'r swyddogaethau hyn.

Caiff Cydbwyllgorau Corfforedig eu sefydlu o dan reoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru. O ganlyniad, mae nifer o'r rheolau a safonau sy'n berthnasol i'r cydbwyllgorau corfforedig wedi eu cynnwys mewn rheoliadau yn hytrach nag yn y cyfansoddiad.

Gallwch ddarllen mwy am sut mae Cydbwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru'n cyflawni ei swyddogaethau yn adran 10A o'r cyfansoddiad.

Gallwch ddarllen mwy am waith Cydbwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar wefan Uchelgais Gogledd Cymru.

Gallwch ddarllen mwy am gydbwyllgorau statudol yn gyffredinol mewn canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru <chrome-extension://efaidnbmnnnibpcajpcglclefindmkaj/https:/www.gov.wales/sites/default/files/publications/2022-01/corporate-joint-committees.pdf>.

# Rhan 3 Swyddogaethau a Chyfrifoldebau

## Aelodau o'r Cyngor

### Beth yw rolau Cynghorwyr?

Yn adran 31 o'r cyfansoddiad gallwch ddod o hyd i wybodaeth am rolau a ymgymerir gan Gynghorwyr ar y Cyngor.

Mae'r rhain yn cynnwys:-

- Arweinydd a Dirprwy Arweinydd;
- Cadeirydd ac Is-gadeirydd;
- Aelod o'r Cabinet
- Aelod Etholedig (Cynghorydd);
- Cadeirydd a / neu aelod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd;
- Cadeirydd ac / neu aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio;
- Cadeirydd ac / neu aelod o'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu;
- Cadeirydd ac / neu aelod o'r Pwyllgor Safonau;
- Cadeirydd ac / neu aelod o bwyllgor rheoleiddio;
- Arweinydd yr Wrthblaid a Dirprwy Arweinydd yr Wrthblaid; ac
- Aelod sy'n Gefnogwr.

Yn adran 11 o'r cyfansoddiad, byddwch yn dod o hyd i wybodaeth am rolau uwch swyddogion cyflogedig y Cyngor, gan gynnwys y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro, y Prif Swyddog Cyllid a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.

Mae'r rhan hon o'r canllaw yn darparu mwy o wybodaeth am y rolau pwysig hyn.

### Cadeirydd ac Is-gadeirydd

Caiff y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd eu hethol gan y Cyngor Llawn bob blwyddyn.

Mae'r gweithdrefnau sy'n rheoli etholiad y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd a'u hymddiswyddiad neu ddiswyddiad wedi eu nodi yn adran 4.7.3 o'r cyfansoddiad.

Mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am: -

- hybu a chynnal y cyfansoddiad;
- lywyddu cyfarfodydd y Cyngor Llawn;
- sicrhau bod cyfarfodydd o'r Cyngor Llawn yn gwneud cworwm ac yn cael eu cynnal yn unol â rheolau gweithdrefn y Cyngor; a
- sicrhau y gwneir penderfyniadau yn unol â'r cyfansoddiad.

Y Cadeirydd yw arweinydd y Cyngor hefyd. Maent yn gyfrifol am hybu lles ac enw da y Cyngor ac am ymgymryd â gweithgareddau dinesig, cymunedol a seremonïol.

Mae'r Is-Gadeirydd yn ymgymryd â swyddogaethau'r Cadeirydd yn eu habsenoldeb.

Gallwch ddarllen mwy am rôl a swyddogaethau'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn adran 4.7.4 o'r cyfansoddiad.

## Arweinydd a Dirprwy Arweinydd

Mae'r Arweinydd yn cael ei ethol gan y Cyngor Llawn bob blwyddyn. Mae'r Dirprwy Arweinydd yn cael ei benodi gan yr Arweinydd i ymarfer swyddogaethau'r Arweinydd yn eu habsenoldeb.

Mae'r trefniadau sy'n rheoli ethol yr Arweinydd a phenodi'r Dirprwy Arweinydd wedi eu nodi yn adrannau 5.3, 5.3 a 6.7 o'r cyfansoddiad.

Mae'r Arweinydd yn gyfrifol am benodi Cynghorwyr i'r Cabinet ac am ddyrannu meysydd polisi a chyfrifoldebau penodol (portffolios) i aelodau'r Cabinet. Mae'r Arweinydd hefyd yn cadeirio cyfarfodydd y Cabinet.

Mae'r Arweinydd hefyd yn gyfrifol am baratoi cynllun yn disgrifio pa swyddogaethau a ymgymerir gan ba aelod o'r Cabinet (cyfeirir at hyn yn y cyfansoddiad fel cynllun dirprwyo'r Arweinydd).

Gweler adran 6.3 a 6.4 o'r cyfansoddiad am fwy o wybodaeth.

Bydd yr Arweinydd yn gweithredu fel aelod y Cyngor ar Gydbwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint. Gall yr Arweinydd benodi aelodau eraill o'r Cyngor i eistedd ar gyrff allanol eraill.

Gweler adran 6.5 a 6.6 o'r cyfansoddiad am fwy o wybodaeth.

Mae disgrifiad o rôl yr Arweinydd ar gael yn adran 31.2 o'r cyfansoddiad.

Mae disgrifiad o rôl y Dirprwy Arweinydd ar gael yn adran 31.3 o'r cyfansoddiad.

Mae disgrifiad o rôl yr Arweinydd ar gael yn adran 31.19 o'r cyfansoddiad.

## Aelod o'r Cabinet

Mae Aelodau o'r Cabinet yn gyfrifol am:-

- wneud penderfyniadau ar faterion sy'n syrthio o fewn eu maes cyfrifoldeb;
- chwarae rhan weithredol mewn cyfarfodydd Cabinet a gwneud penderfyniadau;
- cyfrannu at ddatblygu rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cyngor a pholisïau a gweithdrefnau yn eu maes cyfrifoldeb;
- darparu arweinyddiaeth wleidyddol i swyddogion cyflogedig y Cyngor ar faterion maent yn gyfrifol amdanynt;
- adrodd i'r Cyngor Llawn, yr Arweinydd, y Cabinet ac eraill ar berfformiad gwasanaethau maent yn gyfrifol amdanynt; a
- chyfrannu at brosesau craffu a gweithdrefnau'r Cyngor, gan gynnwys drwy egluro penderfyniadau a wnaed ganddynt a pherfformiad swyddogaethau o fewn eu hardal i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

Gallwch ddarllen mwy am aelodau o'r Cabinet yn adran 5.4 a 5.5 o'r cyfansoddiad.

Mae disgrifiad o rôl aelodau'r Cabinet ar gael yn adran 31.4 o'r cyfansoddiad.

Mae manylion am yr unigolyn ar gyfer aelodau'r Cabinet ar gael yn adran 31.20 o'r cyfansoddiad.

## Cynorthwywyr i'r Pwyllgor Gweithredol

Mae Cynorthwywyr i'r Pwyllgor Gweithredol yn cefnogi aelodau o'r Cabinet drwy ymgymryd â thasgau a chyfrifoldebau ar eu rhan. Mae'n bosibl y byddant yn mynychu cyfarfodydd, paratoi adroddiadau, adolygu papurau a llunio sylwadau i'r aelodau maent yn eu cefnogi.

Nid yw Cynorthwywyr i'r Pwyllgor Gweithredol yn aelodau o'r Cabinet ac ni allant bleidleisio mewn Cyfarfodydd Cabinet na Chyfarfodydd Pwyllgor. Fodd bynnag, mae ganddynt hawl mynychu a siarad mewn cyfarfodydd o'r Cabinet a'i bwyllgorau.

Gallwch ddarllen mwy am Gynorthwywyr i'r Pwyllgor Gweithredol yn adran 5.6 o'r cyfansoddiad.

## Swyddogion

### Beth yw rolau swyddogion cyflogedig o'r Cyngor?

Mae aelodau etholedig o'r Cyngor yn cael eu cefnogi gan swyddogion cyflogedig o'r Cyngor, sy'n atebol i'r Cyngor ac yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn unol â'r polisïau a gweithdrefnau a gytunir gan y Cyngor Llawn, y Cabinet a'u pwyllgorau a chyrff.

Y **Prif Weithredwr** sydd â chyfrifoldeb corfforaethol a gweithredol cyffredinol am waith y Cyngor ac am holl swyddogion cyflogedig y Cyngor.

Mae rôl a chyfrifoldebau'r Prif Weithredwr wedi eu disgrifio yn adrannau 11.1.2 a 11.1.4 o'r cyfansoddiad.

Gallwch hefyd ddarllen y dirprwyaethau i'r Prif Weithredwr yn y Cynllun Dirprwyo Swyddogion yn adran 11.6 o'r cyfansoddiad.

Y **Swyddog Monitro** sy'n gyfrifol am sicrhau tegwch a chyfreithlondeb penderfyniadau'r Cyngor, cynnal y cyfansoddiad, derbyn adroddiadau o doriadau honedig i ddyletswyddau a rhwymedigaethau'r Cyngor a chynnal ymchwiliadau i honiadau o'r fath.

Mae rôl a chyfrifoldebau'r Swyddog Monitro wedi eu disgrifio yn adran 11.1.5 o'r cyfansoddiad.

Mae **Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd** yn gyfrifol am gynghori'r Cyngor, ei bwyllgorau a Chynghorwyr unigol, ar ddatgan swyddogaethau a chyfrifoldebau democrataidd y Cyngor yn briodol.

Mae rôl a chyfrifoldebau Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd wedi eu disgrifio yn adran 11.1.7 o'r cyfansoddiad.

Mae'r **Prif Swyddog Cyllid** yn gyfrifol am sicrhau bod y Cyngor yn gwneud penderfyniadau cyfreithiol ac ariannol doeth. Maent hefyd yn gyfrifol am weinyddu materion ariannol y Cyngor a darparu cyngor i'r Cynghorwyr ar weithdrefnau cyllidebol ac ariannol arall y Cyngor.

Mae rôl a chyfrifoldebau'r Prif Weithredwr wedi eu disgrifio yn adrannau 11.1.6 ac 17 o'r cyfansoddiad.

Gallwch hefyd ddarllen y dirprwyaethau i'r Prif Weithredwr yn y Cynllun Dirprwyo Swyddogion yn adran 11.6 o'r cyfansoddiad.

Mae'r Cyngor hefyd yn cyflogi nifer o Brif Swyddogion eraill, gan gynnwys:-

- Prif Swyddog, Llywodraethu (a Swyddog Monitro)
- Prif Swyddog, Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi
- Prif Swyddog, Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth
- Prif Swyddog, Tai a Chymunedau
- Prif Swyddog, Addysg ac Ieuenctid
- Prif Swyddog, Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae pob un o'r Prif Swyddogion yn atebol i'r Cyngor am reolaeth a gweinyddiaeth ariannol y gwasanaethau hynny a gweithgareddau a ddyrannwyd iddynt yn unol â pholisïau'r Cyngor.

Mae rolau a chyfrifoldebau'r Prif Swyddogion wedi eu disgrifio yn y Cynllun Dirprwyo Swyddogion yn adran 11.6 o'r cyfansoddiad.

Mae'r prosesau ar gyfer recriwtio, penodi, disgyblu a diswyddo swyddogion wedi eu nodi yn y Rheolau Gweithdrefn Cyflogi Swyddogion yn adran 11.5 o'r cyfansoddiad.

Gallwch hefyd weld y dirprwyaethau i'r Prif Weithredwr yn y Cynllun Dirprwyo Swyddogion yn adran 11.6 o'r cyfansoddiad.

## Sut ddylai Cynghorwyr a Swyddogion ymddwyn?

### Dylai Cynghorwyr gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad Aelodau

Disgwylir i Gynghorwyr gynnal y safonau uchaf o ymddygiad personol a phroffesiynol. Mae'r safonau hynny yn cael eu disgrifio yn y Cod Ymddygiad Aelodau.

Bwriedir i'r Cod Ymddygiad Aelodau helpu ac arwain Cynghorwyr i gynnal safonau priodol o ymddygiad wrth wasanaethu eu cymuned. Yn ei dro, mae'n rhoi sicrwydd i'r cyhoedd ac yn helpu i ddatblygu eu hymddiriedaeth a pharch i'w cynrychiolwyr lleol.

Mae'r Cod Ymddygiad i Aelodau yn seiliedig ar y 7 Egwyddor o Fywyd Cyhoeddus, a nodwyd i ddechrau yn Adroddiad Nolan 1995 ar Safonau Bywyd Cyhoeddus. Roedd tair egwyddor ychwanegol wedi eu hychwanegu i egwyddorion llywodraeth leol yng Nghymru.

Mae'r Cod Ymddygiad i Aelodau yn gyson gyda ac yn darparu ar gyfer y defnydd ymarferol o'r egwyddorion hyn.

- **Anhunanoldeb**

  Rhaid i aelodau weithredu yn llwyr er budd y cyhoedd. Ni ddylent fyth ddefnyddio eu swyddi fel aelodau i sicrhau mantais amhriodol i'w hunain nac i roi mantais neu anfantais yn amhriodol i eraill.

- **Gonestrwydd**

  Rhaid i aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad preifat perthnasol i'w dyletswyddau cyhoeddus a chymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro mewn modd sy'n diogelu lles y cyhoedd.

- **Uniondeb a Phriodoldeb**

  Ni ddylai Aelodau roi eu hunain mewn sefyllfa lle caiff eu huniondeb ei gwestiynu gan unrhyw ymrwymiad ariannol neu ymrwymiad arall i unigolion neu sefydliadau a allai geisio dylanwadu arnynt wrth gyflawni eu dyletswyddau. Rhaid i aelodau osgoi dangos ymddygiad felly bob amser.

- **Dyletswydd i gynnal y gyfraith**

  Rhaid i Aelodau weithredu i gynnal y gyfraith neu weithredu yn unol â'r ymddiriedaeth y mae'r cyhoedd wedi ei ddangos ynddynt.

- **Stiwardiaeth**

Wrth gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau rhaid i aelodau sicrhau fod adnoddau eu hawdurdod yn cael eu defnyddio yn gyfreithlon ac yn ddarbodus.

- **Gwrthrychedd wrth wneud Penderfyniadau**

Wrth gyflawni eu cyfrifoldebau, gan gynnwys penodi pobl, dyfarnu contractau, neu argymell unigolion i dderbyn gwobrau a buddion, rhaid i aelodau wneud penderfyniadau ar sail teilyngdod. Er ei bod yn rhaid i aelodau ystyried cyngor proffesiynol swyddogion ac er y gallent ystyried barn eraill, gan gynnwys eu grwpiau gwleidyddol, eu cyfrifoldeb nhw yw penderfynu ar eu safbwynt ac, os yw'n briodol, sut maent am bleidleisio ar unrhyw fater.

- **Cydraddoldeb a Pharch**

Rhaid i Aelodau gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau gan roi ystyriaeth ddigonol i'r angen i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bawb, beth bynnag fo'u rhyw, hil, anabledd, tueddfryd rhywiol, oed neu grefydd, a dangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill.

- **Bod yn Agored**

Rhaid i aelodau fod mor agored â phosib' am eu holl weithredoedd a rhai dan eu hawdurdod. Mae'n rhaid iddynt geisio sicrhau mai dim ond yn unol â'r gyfraith maent yn cyfyngu ar ddatgelu gwybodaeth.

- **Atebolrwydd**

Mae Aelodau'n atebol i'r etholwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol am eu gweithredoedd ac am y ffordd maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau fel aelod. Rhaid iddynt fod yn barod i'w cyflwyno eu hunain i unrhyw brosesau craffu sy'n briodol ar gyfer eu cyfrifoldebau.

- **Arweinyddiaeth**

Rhaid i Aelodau hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn drwy arweinyddiaeth ac esiampl er mwyn hyrwyddo hyder y cyhoedd yn eu swydd ac yn yr awdurdod. Mae'n rhaid iddynt barchu didueddrwydd ac uniondeb swyddogion statudol yr awdurdod a'i weithwyr eraill.

Gallwch ddarllen y Cod Ymddygiad i Aelodau yn llawn yn adran 19 o'r cyfansoddiad.

Gallwch ddarllen mwy am Safon Sir y Fflint yn adran 20 o'r cyfansoddiad.

Mae gweithdrefnau arbennig sy'n llywodraethu rhyngweithiadau Cynghorwyr â phleidiau sy'n ceisio sicrhau, neu weithio dan, gontractau gyda'r Cyngor hefyd (gweler adran 21 o'r cyfansoddiad) a newyddlenni Cynghorwyr (gweler adran 22 o'r cyfansoddiad).

Disgwylir i gynghorwyr sicrhau eu bod yn deall eu rhwymedigaethau dan y Cod a gweithredu mewn modd sy'n dangos eu bod yn ymroddedig i fodloni'r safonau ymddygiad uchel sy'n ddisgwyliedig ganddynt. Mae Cynghorwyr yn derbyn hyfforddiant pan fyddant yn cael eu penodi ac yn rheolaidd i'w cefnogi i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad i Aelodau.

Disgwylir i Gynghorwyr gydymffurfio â phrotocol cyfryngau cymdeithasol y Cyngor.

Gallwch hefyd darllen y Protocol Cyfryngau Cymdeithasol yn Adran 15 o'r cyfansoddiad.

## Gofynion arbennig i Gynghorwyr sy'n aelodau o bwyllgor cynllunio'r Cyngor

Mae cynllunio yn effeithio ar fuddiannau preifat ac ariannol pobl mewn tir ac eiddo a'r amgylchedd ble maent yn byw, gweithio a chwarae.

Mae pwyllgor cynllunio'r Cyngor yn gyfrifol am gydbwyso anghenion a diddordebau unigolion a'r gymuned i wneud penderfyniadau sy'n agored, teg a thryloyw ac wedi penderfynu defnyddio beirniadaeth gadarn ac am resymau haeddiannol.

Am y rhesymau hyn, disgwylir i aelodau pwyllgor cynllunio'r Cyngor lynu at y Cod Ymddygiad Cynllunio.

Mae'r Cod Ymddygiad Cynllunio'n egluro, ymysg pethau eraill:-

- rôl swyddogion i ddarparu cyngor diduedd a phroffesiynol i aelodau'r pwyllgor;
- y ffactorau ddylid eu cymryd i ystyriaeth wrth benderfynu ar gais ar gyfer caniatâd cynllunio a'r ffactorau a ddylid eu cymryd i ystyriaeth;
- mae'r dyletswyddau cyfreithiol sy'n rhaid i aelodau'r pwyllgor eu hystyried, fel y ddyletswydd i ystyried yr angen ar gyfer datblygu yn cyfrannu at les economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru a'r ddyletswydd i ystyried effaith datblygu ar faint o Gymraeg a ddefnyddir yn ardal y Cyngor.
- y camau y dylai aelodau eu cymryd os oes ganddynt unrhyw gysylltiad personol â mater a benderfynir gan y pwyllgor (e.e. ble mae cais yn ymwneud ag eiddo sydd ganddynt); a

- sut y dylid penderfynu ar geisiadau ar gyfer datblygiad a fwriedir gan neu a gynhelir gan y Cyngor.

Gallwch ddarllen y Cod Ymddygiad Cynllunio'n llawn yn adran 23 o'r cyfansoddiad.

## A oes Cod Ymddygiad ar gyfer Swyddogion?

Mae swyddogion cyflogedig y Cyngor yn gyfrifol am wasanaethu'r cyngor drwy ddarparu cyngor i Gynghorwyr, gweithredu polisïau'r Cyngor a darparu gwasanaethau i'r gymuned leol. Wrth gyflawni eu dyletswyddau, rhaid iddynt weithredu yn gywir, yn onest, yn ddiduedd ac yn wrthrychol.

Mae gan y cyhoedd yr hawl i ddisgwyl y safonau ymddygiad uchaf gan yr holl weithwyr sy'n gweithio i'r Cyngor. Mae'r Cod Ymddygiad i Swyddogion yn amlinellu'r rheolau ac amodau gwasanaeth sy'n berthnasol i weithwyr y Cyngor. Cafodd ei ddylunio i ddarparu arweiniad clir i'w cynorthwyo yn eu gwaith o ddydd i ddydd ac i ganiatáu i'r cyhoedd ddeall beth gallan nhw ei ddisgwyl pan fyddant yn rhyngweithio gyda gweithiwr o'r Cyngor.

Gallwch ddarllen y Cod Ymddygiad i Swyddogion yn llawn yn adran 24 o'r cyfansoddiad.

Disgwylir i Swyddogion sy'n cefnogi pwyllgor cynllunio'r Cyngor lynu at y Cod Ymddygiad Cynllunio.

Gallwch ddarllen y Cod Ymddygiad Cynllunio'n llawn yn adran 23 o'r cyfansoddiad.

## Sut ddylai Cynghorwyr a Swyddogion gydweithio?

Mae gan Gynghorwyr a Swyddogion rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd gwahanol, ond mae'n anochel eu bod yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i ymgymryd â swyddogaethau'r Cyngor a darparu gwasanaethau i breswylwyr sy'n byw yn ardal y Cyngor.

Mae'r Protocol ar Berthnasoedd Aelodau a Swyddogion wedi'i ddylunio i egluro rolau a chyfrifoldebau Cynghorwyr a Swyddogion ac i'w harwain wrth ddelio gyda'r naill neu'r llall. Mae'n egluro beth gall Cynghorwyr a Swyddogion ei ddisgwyl yn rhesymol gan y naill a'r llall a sut y dylent weithio gyda'i gilydd i gyflawni eu diben cyffredin.

Mae gan Gynghorwyr hawl i fynegi barn wleidyddol a chefnogi polisïau'r blaid neu'r grŵp maent yn perthyn iddo. Disgwylir i swyddogion ymgymryd â busnes y Cyngor mewn ffordd wleidyddol ddiduedd ac mae llawer wedi eu cyfyngu rhag cymryd rhan

mewn gweithgaredd gwleidyddol. Felly, mae'r protocol yn egluro sut mae swyddogion yn gallu cefnogi penderfyniadau'r polisi gan grwpiau gwleidyddol, tra'n parhau'n wleidyddol niwtral.

Gallwch ddarllen y Protocol ar Berthynas Aelod a Swyddog yn llawn yn adran 25 o'r cyfansoddiad.

## Sut gallaf gwyno am Gynghorydd?

Mae Adran 3.2.1 (g) o'r cyfansoddiad yn egluro sut y gallwch gyflwyno sylwadau neu gwynion am wasanaethau'r Cyngor.

Os ydych yn dymuno cwyno am Gynghorydd, yna dylech gysylltu â naill ai Swyddog Monitro'r Cyngor neu'r Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae proses gwynion y Cyngor yn rhoi mwy o wybodaeth am sut i gwyno. Mae ar gael ar wefan y Cyngor.

Gallwch ddod o hyd i fanylion cyswllt y Swyddog Monitro ar wefan y Cyngor.

Gallwch wybod mwy am sut i gwyno i Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus ar eu gwefan.

## Sut alla i gwyno am swyddog?

Os oes gennych chi gwyn am un o swyddogion cyflogedig y Cyngor, dylech ysgrifennu at y swyddog perthnasol neu eu rheolwr atebol.

# Rhan 4 Polisïau a gweithdrefnau

## Prif gynlluniau a strategaethau'r Cyngor (fframwaith polisi)

### Ble gallaf ddod o hyd i brif gynlluniau a strategaethau'r Cyngor?

Mae'r Cyngor Llawn yn gyfrifol am osod cynlluniau a strategaethau allweddol y Cyngor, sydd gyda'i gilydd yn ffurfio fframwaith polisi'r Cyngor.

Mae'r cynlluniau a strategaethau sy'n ffurfio fframwaith polisi'r Cyngor wedi eu rhestru yn adran 4.2 o'r cyfansoddiad.

Mae cynlluniau a strategaethau unigol wedi eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor..

Yn ogystal, mae cynllun integredig sengl y Cyngor yn dod â chynlluniau a strategaethau'r Cyngor ynghyd ar gyfer: cymunedau; plant a phobl ifanc; iechyd, gofal cymdeithasol a lles; a diogelwch cymunedol.

Gallwch ddarllen mwy am gynllun lles y Cyngor yn adran 4.3 o'r cyfansoddiad.

Caiff cynllun lles y Cyngor ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor hefyd.

### Sut y penderfynir ar fframwaith polisi'r Cyngor?

Mae'r Cabinet yn gyfrifol am ymgynghori gyda rhanddeiliaid perthnasol, ystyried unrhyw adroddiadau neu argymhellion a wnaed gan bwyllgorau craffu'r Cyngor a gweithio gyda Phrif Swyddogion y Cyngor i ddatblygu fframwaith polisi drafft.

Unwaith mae'r Cabinet wedi datblygu fframwaith polisi drafft, bydd yn cael ei ystyried gan gyfarfod o'r Cyngor Llawn. Gall y Cyngor Llawn benderfynu mabwysiadu fframwaith polisi, gwneud newidiadau iddo, ei gyfeirio yn ôl i'r Cabinet fel y gellir gwneud mwy o waith arno, neu amnewid ei fframwaith polisi ei hun ar gyfer y drafft a baratowyd gan y Cabinet.

Mae'r Cyngor Llawn yn penderfynu mabwysiadu'r fframwaith polisi yna bydd yn dod i rym ar unwaith. Os yw'r Cyngor Llawn yn newid y fframwaith polisi yna mae gan yr Arweinydd gyfle i wrthwynebu'r newidiadau ac ailymgynnull y Cyngor Llawn i ailystyried y fframwaith polisi.

Ar ôl mabwysiadu, mae'r Cabinet, eu pwyllgorau, Cynghorwyr unigol a swyddogion cyflogedig y Cyngor yn rhwym i weithredu yn unol â'r fframwaith polisi.

Mae'r broses ble mae'r Cyngor Llawn yn mabwysiadu fframwaith polisi wedi'i ddisgrifio yn adran 16.2 o'r cyfansoddiad.

## Gosod cyllideb a rheolaeth ariannol

### <u>Sut mae'r Cyngor yn gosod ei gyllideb?</u>

Mae'r Cyngor Llawn yn gyfrifol am gytuno ar gyllideb y Cyngor ac am gytuno ar newidiadau i gyllideb y Cyngor unwaith y bydd wedi'i fabwysiadu'n ffurfiol.

Mae cyllideb y Cyngor mewn dwy ran:-

- mae'r gyllideb refeniw yn darparu ar gyfer costau gweithredu o ddydd i ddydd a gwariant fel cyflogau staff, rhent a chostau parhaus darparu gwasanaethau.
- mae'r gyllideb cyfalaf yn darparu ar gyfer costau unwaith yn unig fel cynllun gwella ffordd mawr neu brynu neu adeiladu maes parcio newydd.

Mae'r Cabinet, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Cyllid yn gyfrifol am ddatblygu cynigion cychwynnol ar gyfer cyllideb y Cyngor ac ymgynghori ar y rhain.

Ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad hwn, mae'r Cabinet yn gyfrifol am baratoi cynnig cyllideb terfynol ar gyfer ystyriaeth gan y Cyngor Llawn.

Gall y Cyngor Llawn fabwysiadu'r gyllideb heb wneud unrhyw newidiadau, newid y gyllideb neu ofyn i'r Cabinet ei ystyried cyn ei fabwysiadu.

Mae'r broses ble mae'r Cyngor Llawn yn mabwysiadu fframwaith polisi wedi'i ddisgrifio yn adrannau 16 ac 17 o'r cyfansoddiad.

## Penderfyniadau sydd y tu hwnt i'r fframwaith polisi neu gyllideb

### <u>A ellir gwneud penderfyniadau nad ydynt yn cydymffurfio â'r fframwaith polisi neu'r gyllideb?</u>

Gall y Cyngor Llawn benderfynu gwneud newidiadau i'r fframwaith polisi.

Gall cyrff ac unigolion eraill wneud penderfyniadau nad ydynt yn cydymffurfio gyda'r fframwaith polisi mewn nifer cyfyngedig o amgylchiadau eithriadol, sydd wedi eu cynnwys yn y cyfansoddiad. Er enghraifft, ble mae'n rhaid gwneud penderfyniad brys i ddiogelu buddiannau'r Cyngor ac nad yw'n bosibl trefnu cyfarfod o'r Cyngor llawn mewn pryd.

Fodd bynnag, gall pwyllgor trosolwg a chraffu'r Cyngor benderfynu cyfeirio penderfyniadau o'r fath i'r Cyngor Llawn ar gyfer ystyriaeth bellach (cyfeirir at hyn yn y cyfansoddiad fel galw'r penderfyniad i mewn).

Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer penderfyniadau brys nad ydynt yn cydymffurfio â'r fframwaith polisi wedi eu nodi yn adran 16.5 o'r cyfansoddiad.

Mae Adran 16.7 o'r cyfansoddiad yn disgrifio'r amgylchiadau cyfyngedig ble mae cyrff neu unigolion heblaw'r Cyngor Llawn yn gwneud newidiadau i'r fframwaith polisi.

Mae pwerau'r pwyllgor trosolwg a chraffu yn cael eu disgrifio yn adran 7 o'r cyfansoddiad.

## A ellir symud arian o un pennawd cyllideb i un arall unwaith y mabwysiadwyd y gyllideb?

Yn ystod y flwyddyn mae'n bosibl y bydd y Cabinet a'r Prif Swyddogion angen trosglwyddo cyllidebau o un maes gwasanaeth i un arall i adlewyrchu newid mewn anghenion neu flaenoriaethau gwasanaeth er mwyn darparu fframwaith polisi'r Cyngor o fewn terfynau ariannol gan y Cyngor.

Mae'r dull ble gall y Cabinet a'r Prif Swyddogion symud arian rhwng penawdau cyllideb wedi'i nodi yn adran 17 o'r cyfansoddiad.

## Pa bolisïau a gweithdrefnau eraill sy'n llywodraethu sut mae'r Cyngor yn rheoli ei gyllideb?

Mae'r Cyngor yn rhwym i nifer o reolau a gweithdrefnau ariannol gwahanol sy'n rheoli sut mae gwariant y Cyngor yn cael ei gynllunio, ymrwymo, adolygu a'i archwilio.

Mae rheolau gweithdrefn ariannol manwl y Cyngor wedi eu nodi yn adran 17 o'r cyfansoddiad.

## A oes unrhyw gyfyngiadau ar sut mae'r Cyngor yn prynu nwyddau a gwasanaethau?

Gall y Cyngor ymuno â chontractau i brynu nwyddau a gwasanaethau yn yr un ffordd ag unrhyw unigolyn neu sefydliad arall.  Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â rheolau'r weithdrefn gontractau yn y cyfansoddiad pan mae'n gwneud hynny.

Diben rheolau'r weithdrefn gontract yw sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol perthnasol ac yn sicrhau'r nwyddau a gwasanaethau mwyaf economaidd (gwerth gorau) i drethdalwyr.

Os ydych yn gwerthu nwyddau neu wasanaethau i'r Cyngor yn rheolaidd yna mae'n bosibl eich bod eisiau dod yn gyfarwydd â'r rheolau a'r gweithdrefnau hyn.

Mae rheolau gweithdrefn ariannol manwl y Cyngor wedi eu nodi yn adran 18 o'r cyfansoddiad.

## Sut mae'r Cyngor yn llunio contractau a chytundebau?

Mae'r rheolau a'r gweithdrefnau sy'n rheoli sut mae cytundebau, contractau a gweithredoedd yn cael eu hawdurdodi a'u gweithredu ar ran y Cyngor wedi eu nodi yn adran 13 o'r cyfansoddiad.

## Rhan 5 Sut y gallaf i gymryd rhan?

### Sut gallaf wybod pryd mae cyfarfodydd y Cyngor a'i bwyllgorau a chyrff yn cael eu cynnal?

Mae'r Cyngor yn cyhoeddi hysbysiadau am gyfarfodydd y Cyngor Llawn a'i bwyllgorau.

- Gallwch wybod mwy am ofynion hysbysiad yn adrannau 4.10 ac 14.4 o'r cyfansoddiad.
- Mae'r Cyngor yn cyhoeddi hysbysiadau am gyfarfodydd a rhaglen o gyfarfodydd i ddod ar ei wefan.

### Sut gallaf wybod beth fydd yn cael ei drafod mewn cyfarfod penodol?

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi rhaglenni cyfarfodydd, ynghyd ag unrhyw bapurau cefndir ac adroddiadau ymlaen llawn cyn cynnal y cyfarfod.

Bydd copïau caled o raglenni a phapurau cefndir ac adroddiadau hefyd ar gael yn y cyfarfod i'r aelodau hynny o'r cyhoedd sy'n dymuno mynychu'n bersonol.

- Gallwch wybod am fwy o wybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus cyn cyfarfod y Cyngor yn adrannau 14.5 ac 14.8 o'r cyfansoddiad.
- Mae'r Cyngor yn cyhoeddi rhaglenni cyfarfodydd a dogfennau ac adroddiadau cefnogol ar ei wefan.

### Sut gallaf wybod pryd y penderfynir am fater yr wyf yn bryderus amdano?

Mae'r Cyngor yn cyhoeddi rhaglen gwaith i'r dyfodol, sy'n nodi pa benderfyniadau fydd yn cael eu cymryd gan y Cyngor Llawn, y Cabinet a pha faterion fydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn eu hystyried, a phryd y bydd y materion hyn yn cael eu trafod.

- Gallwch wybod mwy am raglen gwaith i'r dyfodol y Cyngor yn adrannau 3.1 ac 14.13 o'r cyfansoddiad.
- Mae'r Cyngor yn cyhoeddi ei flaen-gynlluniau ar ei wefan.

## A wyf yn gallu gofyn i bwyllgor neu gorff o'r Cyngor edrych ar fater penodol?

Ydych. Gallwch naill ai ofyn i gadeirydd corff penodol i ychwanegu eitem ar y rhaglen ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol, neu fynychu cyfarfod a gofyn i'r corff hwnnw edrych ar fater pan mae'n ystyried eitemau busnes yn y dyfodol.

Gallwch hefyd anfon deisebau at y Cyngor yn defnyddio cynllun deiseb y Cyngor. Mae'n ofynnol i'r Cyngor yn unol â'r gyfraith i weithredu deiseb, sy'n nodi:-

- sut y gellir cyflwyno deiseb i'r Cyngor;
- sut a phryd y bydd y Cyngor yn cydnabod eu bod wedi derbyn y ddeiseb;
- y camau y bydd y Cyngor yn eu cymryd mewn ymateb i ddeiseb; a
- sut ac erbyn pryd y bydd y Cyngor yn sicrhau bod ei ymateb i ddeiseb ar gael i'r sawl a gyflwynodd y ddeiseb ac i'r cyhoedd.

Gallwch ddarllen mwy am gyflwyno deiseb i'r Cyngor yn adran 4.13 o'r cyfansoddiad.

Mae'r Cyngor yn cyhoeddi manylion ei gynllun deiseb ar ei wefan < <https://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Democratic-Services/Flintshire-Constitution.pdf

## A wyf yn gallu mynychu cyfarfodydd y Cyngor Llawn?

Gallwch, mae aelodau o'r cyhoedd yn gallu dod i gyfarfodydd o'r Cyngor Llawn cyn belled â'u bod yn cael eu cynnal yn gyhoeddus.

Mae cyfarfodydd o'r Cyngor Llawn hefyd yn cael eu darlledu yn fyw ar wefan y Cyngor felly gallwch eu gwylio mewn amser real o bell os byddwch yn dymuno.

Rhaid i'r cyhoedd gael eu heithrio pryd bynnag y mae'n debygol y bydd gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei datgelu. Mae gwybodaeth gyfrinachol yn golygu gwybodaeth a roddir i'r Cyngor gan Adran o'r Llywodraeth ar delerau sy'n gwahardd ei ddatgelu i'r cyhoedd neu wybodaeth na ellir ei datgelu'n gyhoeddus gan Orchymyn Llys.

Mae'r Cyngor hefyd yn gallu eithrio'r cyhoedd o gyfarfod, neu ran o gyfarfod, ble byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu. Mae gwybodaeth eithriedig yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn penodol neu eu materion busnes neu ariannol, gwybodaeth breintiedig yn gyfreithiol neu wybodaeth sy'n ymwneud ag atal, ymchwilio neu erlyn trosedd neu wybodaeth arall a nodir yn y cyfansoddiad.

Os byddwch yn amharu ar gyfarfod o'r Cyngor, yna rydych yn debyg o gael rhybudd gan y Cadeirydd am achosi aflonyddwch. Os byddwch yn parhau i amharu ar y cyfarfod, yna mae'n bosibl y gorchmynnir chi i adael.

Mae'r rheolau sy'n ymwneud â gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod wedi eu cynnwys yn adrannau 14.10 o'r cyfansoddiad.

Mae rhwymedigaeth y Cyngor i ddarlledu cyfarfodydd y Cyngor wedi'i nodi yn rheolau gweithdrefn y Cyngor yn adrannau 4.10 a 4.11 o'r cyfansoddiad.

Mae'r rheolau ynglŷn ag aflonyddwch gan aelodau o'r cyhoedd wedi eu nodi rheolau gweithdrefn y Cyngor yn adran 4.10 o'r cyfansoddiad.

## A wyf yn gallu mynychu cyfarfodydd eraill?

Ydych, mae aelodau o'r cyhoedd yn gallu dod i unrhyw gyfarfod mae'r Cyngor wedi penderfynu y dylent fod yn gyhoeddus.

Mae eich hawl i fynychu cyfarfodydd o Gabinet y Cyngor, pwyllgorau'r Cyngor a chyrff eraill wedi eu disgrifio yn adran 14.3 o'r cyfansoddiad.

## A wyf yn gallu siarad mewn cyfarfod?

Gall aelodau o'r cyhoedd siarad mewn unrhyw gyfarfod y mae'r Cyngor wedi penderfynu y dylai gynnwys cyfranogiad gan aelodau o'r cyhoedd.

## A wyf yn gallu gofyn cwestiwn mewn cyfarfod?

Gallwch ofyn cwestiynau ffurfiol i aelodau o'r Cabinet mewn cyfarfodydd o'r Cyngor Llawn.

Fodd bynnag, gallwch ond gofyn cwestiwn os ydych wedi hysbysu Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn ysgrifenedig (gan gynnwys drwy e-bost) yr ydych yn dymuno codi cwestiwn cyn i'r cyfarfod gael ei gynnal.

Gallwch ond gofyn un cwestiwn, ond os nad ydych yn gallu mynychu'r cyfarfod, yna gallwch enwebu rhywun i fynychu'r cyfarfod a gofyn y cwestiwn ar eich rhan.

Mae amser yn gyfyngedig ar gyfer cwestiynau, a chaniateir cwestiynau yn y drefn y cawsant eu hysbysu i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd Os bydd amser ar gyfer cwestiynau yn rhedeg allan cyn i chi ofyn eich cwestiwn, yna yn hytrach byddwch yn derbyn ateb ysgrifenedig i'ch cwestiwn.

Gellir hefyd gwneud argymhellion mewn amgylchiadau arbennig, megis gwrthwynebwyr i geisiadau cynllunio yn y pwyllgor cynllunio (gweler 20.12 o'r cyfansoddiad).

Gallwch ddarllen mwy am ofyn cwestiwn yn rheolau gweithdrefn y Cyngor yn adran 4.10 o'r cyfansoddiad.

Cyhoeddir gwybodaeth am y cyfleoedd i gyflwyno cwestiynau i'r Cyngor ar wefan y Cyngor.

## Sut gallaf wybod beth oedd penderfyniad y Cyngor?

Mae'r Cyngor yn cyhoeddi'r rhaglen, adroddiadau a chofnodion cyfarfodydd ar ôl cytuno arnynt. Mae'r papurau hyn ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd am isafswm o chwe blynedd o ddyddiad y cyfarfod. Mae'r papurau cefndir ar gael i'r cyhoedd am o leiaf pedair blynedd.

Mae gan y Cyngor hefyd drefniadau ar gyfer cyhoeddi cofnodion ysgrifenedig o benderfyniadau a wneir gan y Cabinet a phwyllgorau a chyrff eraill y Cyngor.

Gallwch ddarllen trefniadau'r Cyngor ar gyfer cyhoeddi cofnodion cyfarfodydd yn adran 14.7 o'r cyfansoddiad.

Gallwch ddarllen am drefniadau'r Cyngor ar gyfer cyhoeddi cofnod ysgrifenedig o benderfyniadau a wneir gan y Cabinet, pwyllgorau'r Cyngor ac aelodau unigol o'r Cabinet yn adran 14.15 o'r cyfansoddiad.

Gallwch ddarllen cofnodion, adroddiadau a rhaglenni cyfarfodydd ar wefan y Cyngor.

## A allaf weld cyfrifon y Cyngor i ddeall sut mae treth y cyngor yn cael ei wario?

Gallwch. Mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei gyfrifon a'u gwneud ar gael ar gyfer eu harchwilio gan y cyhoedd. Gallwch godi cwestiynau am gyfrifon y Cyngor gyda'r Cyngor neu gydag archwiliwr allanol y Cyngor.

Gallwch wybod mwy am sut i weld a gwneud sylwadau ar gyfrifon y Cyngor yn adrannau 3.1 ac 14.14 o'r cyfansoddiad.

## MYNEGAI


Cynhyrchwyd yn unol ag adran 37(1A) Deddf Llywodraeth Leol 2000 ........................ 1
Cyflwyniad ........................................................................................ 2
Y cyfansoddiad ..................................................................................... 2
Y canllaw hwn ...................................................................................... 5
Rhan 1 Y cyfansoddiad ............................................................................ 6
Rhan 2 Strwythurau democrataidd y Cyngor ................................................... 7
Siart Strwythur ..................................................................................... 8
Cynghorwyr ......................................................................................... 10
Cyngor Llawn ....................................................................................... 11
Beth sy'n digwydd yng nghyfarfodydd y Cyngor Llawn? ..................................... 12
Sut mae'r Cyngor yn gwneud penderfyniadau? ............................................. 13
Ydy pob Cynghorydd angen bod yn bresennol cyn y gellir gwneud unrhyw benderfyniad? ......... 13
Y Cabinet ........................................................................................... 15
Pwyllgorau .......................................................................................... 17
Pam bod gan y Cyngor bwyllgorau a beth maent yn ei wneud? ............................ 17
Beth mae pwyllgorau rheoleiddio'r Cyngor yn ei wneud? .................................. 17
Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio .......................................................... 17
Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd ................................... 17
Pwyllgor Trwyddedu .............................................................................. 18
Pwyllgor Cynllunio ................................................................................. 18
Pwyllgor Apeliadau ................................................................................ 19
Beth mae pwyllgorau craffu'r Cyngor yn ei wneud? ........................................ 19
Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ................................................................. 19
Pwyllgor Safonau .................................................................................. 20
Pwyllgor Cwynion .................................................................................. 21
Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu ................................................................. 21
Beth yw'r Pwyllgor Newid Hinsawdd? ......................................................... 21
Beth yw cydbwyllgorau? .......................................................................... 22
Cydbwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ................................ 22
Rhan 3 Swyddogaethau a Chyfrifoldebau ...................................................... 24
Aelodau o'r Cyngor ................................................................................ 24
Beth yw rolau Cynghorwyr? ..................................................................... 24
Cadeirydd ac Is-gadeirydd ....................................................................... 24
Arweinydd a Dirprwy Arweinydd ................................................................ 25
Aelod o'r Cabinet .................................................................................. 26
Cynorthwywyr i'r Pwyllgor Gweithredol ....................................................... 26

Swyddogion .......... 28
Beth yw rolau swyddogion cyflogedig o’r Cyngor? .......... 28
Sut ddylai Cynghorwyr a Swyddogion ymddwyn? .......... 30
Dylai Cynghorwyr gydymffurfio â’r Cod Ymddygiad Aelodau .......... 30
Gofynion arbennig i Gynghorwyr sy’n aelodau o bwyllgor cynllunio’r Cyngor .......... 32
A oes Cod Ymddygiad ar gyfer Swyddogion? .......... 33
Sut ddylai Cynghorwyr a Swyddogion gydweithio? .......... 33
Sut gallaf gwyno am Gynghorydd? .......... 34
Sut alla i gwyno am swyddog? .......... 34
Rhan 4 Polisïau a gweithdrefnau .......... 35
Prif gynlluniau a strategaethau’r Cyngor (fframwaith polisi) .......... 35
Ble gallaf ddod o hyd i brif gynlluniau a strategaethau’r Cyngor? .......... 35
Sut y penderfynir ar fframwaith polisi’r Cyngor? .......... 35
Gosod cyllideb a rheolaeth ariannol .......... 36
Sut mae’r Cyngor yn gosod ei gyllideb? .......... 36
Penderfyniadau sydd y tu hwnt i’r fframwaith polisi neu gyllideb .......... 36
A ellir gwneud penderfyniadau nad ydynt yn cydymffurfio â’r fframwaith polisi neu’r gyllideb? .......... 36
A ellir symud arian o un pennawd cyllideb i un arall unwaith y mabwysiadwyd y gyllideb? .......... 37
Pa bolisïau a gweithdrefnau eraill sy’n llywodraethu sut mae’r Cyngor yn rheoli ei gyllideb? .......... 37
A oes unrhyw gyfyngiadau ar sut mae’r Cyngor yn prynu nwyddau a gwasanaethau? .......... 37
Sut mae’r Cyngor yn llunio contractau a chytundebau? .......... 38
Rhan 5 Sut y gallaf i gymryd rhan? .......... 39
Sut gallaf wybod pryd mae cyfarfodydd y Cyngor a’i bwyllgorau a chyrff yn cael eu cynnal? .......... 39
Sut gallaf wybod beth fydd yn cael ei drafod mewn cyfarfod penodol? .......... 39
Sut gallaf wybod pryd y penderfynir am fater yr wyf yn bryderus amdano? .......... 39
A wyf yn gallu gofyn i bwyllgor neu gorff o’r Cyngor edrych ar fater penodol? .......... 39
A wyf yn gallu mynychu cyfarfodydd y Cyngor Llawn? .......... 40
A wyf yn gallu mynychu cyfarfodydd eraill? .......... 41
A wyf yn gallu siarad mewn cyfarfod? .......... 41
A wyf yn gallu gofyn cwestiwn mewn cyfarfod? .......... 41
Sut gallaf wybod beth oedd penderfyniad y Cyngor? .......... 42
A allaf weld cyfrifon y Cyngor i ddeall sut mae treth y cyngor yn cael ei wario? .......... 42
MYNEGAI ..........